Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2 (2017 – 2033)

## Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol

## Rhagfyr 2019

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| CDUC | Cyd-gynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro 2000-2016 |
| CDLl / CDLl (2) | Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol (2) |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| SA | Arfarniad o Gynaladwyedd |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol |
| AFDL | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol |
| BGSB | Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro |
| APCAP | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Mabwysiedig | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu mai hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir a'i fod yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl ar werth neu i'w rentu yn is na phrisiau'r farchnad ac yn cael eu cadw'n dai fforddiadwy am byth. |
| Dyraniad Tai Fforddiadwy | Tir a ddyrannwyd ar gyfer tai fforddiadwy, naill ai perchnogaeth tai am bris isel neu dai i'w rhentu. |
| Y tir sydd ar gael a'r modd i adeiladu | Mae'r tir sydd ar gael yn cynnwys parodrwydd y perchennog i ddatblygu'r tir neu ei werthu i gael ei ddatblygu. Mae'r modd i adeiladu yn ymwneud â hyfywedd economaidd datblygu safle. |
| Cefn Gwlad | Tir y tu allan i aneddiadau a nodwyd o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau. |
| Cynllun Adneuo | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| Dyraniad Tai | Safleoedd datblygu preswyl ar gyfer lleiafswm o 5 uned ac wedi eu dangos yn y Cynllun Datblygu. |
| Seilwaith | Mae seilwaith yn cynnwys cyflenwadau ynni, cyflenwad dŵr, dull o gael gwared a charthion neu ddŵr wyneb, ffyrdd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, telegyfathrebu a chyfleusterau y mae eu hangen fel fframwaith ar gyfer datblygu. |
| Tai Marchnad | Tai sydd ar werth am brisiau'r farchnad (gallant gynnwys tai hunanadeiladu neu rai sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol). |

| | |
|---|---|
| 'Cynllunio drwy Apêl' | Cynigion datblygu ad hoc sy'n dod ymlaen yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i arwain datblygiad. |
| Y Dewis a Ffefrir | Yr un dewis neu ddewis cymysg sy'n ganlyniad ystyried amrywiaeth o ddewisiadau neu faterion yn dilyn ymgynghoriad. |
| Y Strategaeth A Ffefrir | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n gosod y fframwaith a'r polisïau trosfwaol fydd yn arwain y polisïau a'r cynigion yn ymwneud â defnydd tir. |
| Adroddiad Adolygu | Dogfen sy'n egluro ble mae angen newid y Cynllun Datblygu Lleol presennol (CDLl 1) a pham. Cyhoeddodd CSP ddrafft o'r ddogfen hon yn 2017, cyhoeddir dogfen ddiwygiedig ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2018. |
| Hierarchaeth Aneddiadau | Caiff aneddiadau eu dosbarthu o fewn yr hierarchaeth yn ôl y boblogaeth a lefel y gwasanaethau yn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bychain iawn gydag ychydig iawn neu ddim gwasanaethau yn syrthio y tu allan i'r hierarchaeth ac fe'u diffinnir fel cefn gwlad. |
| Tai hunanadeiladu /tai wedi eu hadeiladu'n bwrpasol | Datblygiad tai pwrpasol a gomisiynwyd ac a reolir gan y perchennog arfaethedig. Ym mhob achos, p'un a yw cartref wedi ei hunanadeiladu neu wedi ei adeiladu'n bwrpasol, perchennog cychwynnol y cartref fydd â'r prif fewnbwn i'w ddyluniad a'i osodiad terfynol. |

# Cynnwys

Byrfoddau ........................................................................ 2
Rhestr Termau ........................................................................ 2
Rhagarweiniad ........................................................................ 5
Pennod 1: Cyhoeddusrwydd ........................................................................ 6
Pennod 2: Dulliau Ymgysylltu ........................................................................ 8
Pennod 3: Y Prif Faterion a nodwyd drwy'r Ymgynghoriad Cyn Adneuo ........................................................................ 21
Pennod 4: Sylwadau Hwyr ........................................................................ 28
Pennod 5: Tabl Trosi Polisi ........................................................................ 29
Pennod 6: Y Camau Nesaf ........................................................................ 31

# Rhagarweiniad

### *Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol*

i) Mae Cyngor Sir Penfro wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i gymryd lle'r hen un – **Cynllun Datblygu Lleol 2**. Pan gaiff ei fabwysiadu, rhydd fframwaith polisi wedi ei ddiwygio a'i ddiweddaru i arwain datblygiad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac i lywio penderfyniadau cynllunio'r Cyngor Sir. Yn ystod yr **Adolygiad**, bydd y Cynllun Datblygu Lleol presennol (hyd at 2021) yn aros yn ei le hyd nes y bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) wedi cael ei fabwysiadu.

### *Adroddiad yr Ymgynghoriad Cychwynnol*

ii) Lluniwyd yr **Adroddiad** hwn ar yr **Ymgynghoriad Cychwynnol** i nodi sut yr ymgymerodd yr Awdurdod â'i Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, sy'n gyfnod ffurfiol yn y broses o Adolygu Cynllun Datblygu Lleol.

### *Ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir*

i) Rhydd **Pennod 1** grynodeb o'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i Ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir.
ii) Mae **Pennod 2** yn esbonio'r dull a gymerodd yr Awdurdod wrth ymgysylltu, a'r cyrff y cysylltodd â hwy, wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir.
iii) Mae **Pennod 3** yn egluro'r prif faterion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad Cyn Adneuo ac ymateb yr Awdurdod. Paratowyd atodlen ar wahân hefyd gyda sylwadau unigol a atebwyd (gweler Atodiadau).
iv) Rhydd **Pennod 4** wybodaeth am y modd yr ymdriniwyd â chyflwyniadau hwyr.
v) Rhydd **Pennod 5** siart trosi ar gyfer rhifo polisïau. Dengys beth oedd rhif y polisi yn y Strategaeth a Ffefrir a'r hyn yw yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo.
vi) Mae **Pennod 6** yn dweud beth fydd y camau nesaf.

# Pennod 1: Cyhoeddusrwydd

1. Cyhoeddwyd Dogfennau Cyn Adneuo'r Cyngor ar gyfer ymgynghoriad dros 8 wythnos rhwng yr 17eg o Ragfyr 2018 a'r 4ydd o Chwefror 2019. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Strategaeth a Ffefrir,** oedd yn egluro ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, Weledigaeth ddrafft, Amcanion a Strategaeth twf gyffredinol ar gyfer yr Awdurdod.
- **Adroddiad Adolygu** oedd yn esbonio pa rannau o'r CDLl presennol y byddai efallai angen eu newid a pham.
- **Adroddiad Arfarniad o Gynaladwyedd Cychwynnol** (SA) oedd yn egluro sut y cafodd cynigion y Strategaeth a Ffefrir eu hasesu o ran eu heffeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- **Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** oedd yn asesu a oedd y Strategaeth a Ffefrir yn debygol neu beidio o effeithio ar safle Natura 2000. Safleoedd yw'r rhain sydd wedi eu dynodi am eu cynefinoedd a'u rhywogaethau pwysig.
- Dangosai **Cofrestr y Safleoedd Ymgeisiol** yr holl safleoedd (dros 450) a gyflwynwyd i'r Awdurdod y llynedd fel rhan o'i alwad am Safleoedd Ymgeisiol.

2. Gosodwyd y Strategaeth a Ffefrir a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar wefan yr Awdurdod a hysbyswyd pawb oedd ar restr lythyru'r Awdurdod am yr ymgynghoriad.[1] Cyhoeddwyd galwad am Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol hefyd ar yr adeg yma. Ychwanegwyd pob Safle Ymgeisiol a dderbyniwyd fel Safle Ymgeisiol Ychwanegol at Gofrestr y Safleoedd Ymgeisiol ar ôl hynny.

3. Cyhoeddwyd hysbysiad ffurfiol yn y papur newydd lleol (y Western Telegraph) yn ystod y cyfnod ymgynghori a rhyddhawyd datganiad cyffredinol i'r wasg.

4. Rhyddhawyd dau fideo – un wedi ei animeiddio a'r llall yn 'ben yn siarad' ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac ar wefan y Strategaeth a Ffefrir. Gosodwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r Strategaeth a Ffefrir hefyd ar-lein ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt.

5. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu gan gynnwys dau weithdy Cynghorau Tref a Chymuned dan arweiniad Cymorth Cynllunio Cymru[2] a Gweithdy Rhanddeiliaid Allweddol[3]. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda'r Gweithgor Tai Fforddiadwy a Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr. Cynhaliwyd

[1] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/preferred-strategy
[2] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base gweler tudalen we tystiolaeth y CDLl: Adborth o weithdai Cynghorau Tref a Chymuned Ionawr 2019: Ymgynghoriad cyn Adneuo
[3] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base gweler tudalen we tystiolaeth y CDLl: Adborth o weithdy Rhanddeiliaid Ionawr 2019: Ymgynghoriad cyn Adneuo

Seminar Ieuenctid ar ôl y cyfnod ymgynghori gyda disgyblion 6ed dosbarth ysgolion lleol.

## Pennod 2: Dulliau Ymgysylltu

a. Rhydd y tabl isod grynodeb o’r ymgynghori a’r ymgysylltu cyn Adneuo’r Cynllun. Mae’n seiliedig ar y dulliau o ymgynghori a nodwyd ac a ddisgrifiwyd yn adran 3.24 y Cytundeb Cyflawni. Mae colofn ar y dde yn nodi a gydymffurfiwyd neu beidio â’r dulliau ymgysylltu a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni.

| **Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| **1 CYFNODAU PENDANT** | | | | | | |
| **Adroddiad Adolygu** | • Asesu materion o adroddiadau monitro blynyddol (AMB)<br>• Cysylltu ag Aelodau.<br>• Cynnig cyfle i'r cyhoedd yn gyffredinol wneud sylwadau. | | | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Y cyhoedd yn gyffredinol | • Gweithdy gydag Aelodau (Ionawr 2018)<br>• Gweithdy gyda Cynghorau Tref a Chymuned (6ed o Ragfyr a 13eg o Ragfyr 2017)<br>• Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br>• Hysbysiad Cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol[4] | DO |
| **Cytundeb Cyflawni (DA)[5]** | • Llunio amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun | • Ystyried cyfnodau gwaith Asesu Cynaladwyedd yn yr amserlen | | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol | • Gweithdy gydag Aelodau (Ionawr 2018)<br>• Gweithdy gyda Chynghorau Tref a | DO |

[4] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/review-report
[5] Adran 63 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLl 5-10 2005 / 2015

| Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| | • Datblygu Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)<br>• Nodi Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) allweddol i'w ddatblygu ochr yn ochr ag Adolygiad y Cynllun<br>• Ymgysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Ymgynghori a diwygio'r ddogfen yn dilyn ymgynghoriad. | • Nodi prosesau ymgynghori ar gyfer Asesu Cynaladwyedd yng Nghynllun Cynnwys y Gymuned | | • Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y cyhoedd yn gyffredinol | Chymuned (6ed o Ragfyr a 13eg o Ragfyr 2017)<br>• Dosbarthu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a'r e-bost<br>• Gwybodaeth ar wefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol[6]<br>• Datganiad i'r Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus[7]<br>• Dogfen Cytundeb Cyflawni ar gael i'w gweld mewn canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd | |

[6] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/delivery-agreement-including-the-community-involvement-scheme

[7] Radio Sir Benfro, WT, Pembrokeshire Herald[7], Tîm Marchnata CSP

| Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| **Cyfranogiad Cyn Adneuo**[8] | • Adroddiad Adolygu (yn cynnwys adolygiad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol 1-4)<br>• Galwad am dystiolaeth gan drydydd partïon<br>• Adolygiad o sylfaen tystiolaeth y CDLl presennol<br>• Cynnal/comisiynu ymchwil ac arolygon<br>• Paratoi papurau cefndir/materion technegol fel gwybodaeth ar gyfer trafodaethau | • Sgrinio<br>• Adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion cynaladwyedd.<br>• Cytuno ar fethodoleg gyda rhanddeiliaid<br>• Casglu gwybodaeth gwaelodlin<br>• Cynhyrchu ac wedyn cynnal ymgynghoriad ar adroddiad rhychwantu ochr yn ochr â materion allweddol<br>• Cynnal Arfarniad o Gynaladwyedd/ Asesiad | | • Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Pobl Ifanc<br>• Sipsiwn a Theithwyr | • Cyfarfodydd a thrafodaethau[9]<br>• Gweithgorau Pynciau a Meysydd penodol (amrywiol)<br>• Gweithdy gyda Rhanddeiliaid Allweddol (26ain o Ebrill 2018)<br>• Gweithdy gydag Aelodau (16eg o Orffennaf 2018)<br>• Seminar Ieuenctid (13eg o Fawrth 2019)<br>• Dosbarthu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a'r e-bost<br>• Gwybodaeth ar wefan y Cyngor ac allfeydd cyfryngau cymdeithasol[10]<br>• Datganiad i'r wasg i hysbysebu'r alwad am Safleoedd Ymgeisiol. | DO |

[8] Rheoliadau CDLl 14 i 16A, 2005 / 2015
[9] Cyfarfod gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro 21ain o Dachwedd 2017, cyfarfodydd gyda Gweithgor Tai Fforddiadwy, Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr, Mwynau a Gwastraff
[10] www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-strategicoptions

| Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| | rhanddeiliaid allweddol<br>• Ymgysylltu ag ymgyngoreion i ddatblygu consensws ar faterion a dewisiadau strategaeth<br>• Galwad am Safleoedd Ymgeisiol – fydd yn dal ar agor am 12 wythnos | Cynaladwyedd Amgylcheddol ar y dewisiadau a nodwyd.<br>• Cynnwys y cyrff ymgynghori amgylcheddol yn fuan<br>• Ymgynghori â chyrff statudol a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasol ac economaidd ynghylch Adroddiad Rhychwantu yr Arfarniad o Gynaladwyedd – cyfnod ymgynghori o bump wythnos. | | | Cysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned i roi barn am y dull sydd i gael ei ddilyn i werthuso Safleoedd Ymgeisiol. (anfonwyd llythyr/e-bost ar yr 11eg o Fehefin – ymgynghoriad anffurfiol hyd y 23ain o Orffennaf 2018). | |

| **Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| **Ymgynghoriad cyhoeddus Cyn Adneuo ar y strategaeth a ffefrir a'r dewisiadau a'r SA/SEA/HRA/ AA cysylltiedig** | • Cyhoeddi Cofrestr o'r Safleoedd Ymgeisiol<br>• Cael cymeradwyaeth Aelodau i'r dewisiadau strategol a'r strategaeth a ffefrir<br>• Cyhoeddi, hysbysebu a dosbarthu'r Strategaeth a Ffefrir.<br>• Hysbysebu cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ffurfiol.<br>• Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac anffurfiol (**chwe** | • Paratoi'r adroddiad Arfarnu Cynaladwyedd cychwynnol (yn cynnwys asesu cynaladwyedd amgylcheddol)<br>• Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiad gwerthuso'r Asesiad Cynaladwyedd / Asesiad Cynaladwyedd Amgylcheddol i gefnogi'r broses benderfynu i ganfod y dewisiadau a ffefrir | • HRA ar unrhyw newidiadau sydd i gael eu gwneud i'r dewisiadau a ffefrir<br>• Canlyniadau'r HRA i gael eu cyhoeddi<br>• HRA ar effeithiau tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd | • Rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Y cyhoedd yn gyffredinol | • Seminar Aelodau (30ain o Dachwedd 2018)<br>• Seminar Rhanddeiliaid Allweddol (19eg o Orffennaf 2018)<br>• Cyfarfodydd gyda grwpiau buddiannau penodol[11]<br>• Seminar Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned (18fed o Orffennaf 2018 a'r 24ain o Orffennaf 2018, Ionawr 2019)<br>• Datganiad i'r Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol[12] | DO |

[11] Cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr ar y 5ed o Fehefin 2018, y 30ain o Ionawr 2019 a'r 3ydd o Hydref 2019. Cyfarfodydd y Gweithgor Tai Fforddiadwy 24ain o Ionawr 2019 a'r 21ain o Hydref 2019.
[12] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/preferred-strategy

| **Paratoi'r Cynllun, Cyfnodau Cynnwys y Gymuned a Chamau Gweithredu** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | **Camau Allweddol** | **SA/SEA** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | **Pwy ddylai fod yn cymryd rhan?** | **Dulliau cymryd rhan** | **Cyrraedd y targed?** |
| | **wythnos statudol)**<br>• Darparu adborth a sylwadau ar y sylwadau a dderbyniwyd. | • Ystyried deilliannau yn y broses ymgynghori<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad Asesu Cynaladwyedd cychwynnol y CDLl ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir | | | • Ymgyngoriadau ysgrifenedig gan gynnwys e-lythyrau<br>• Copïau o'r Strategaeth a Ffefrir ac Adroddiad yr Arfarniad Cychwynnol o Gynaladwyedd yn Neuadd y Sir ac mewn canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd | |

## 2. Grwpiau Allweddol a Nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni:

### a) Y Cyhoedd yn Gyffredinol

*Nod y Cytundeb Cyflawni:* Caiff unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar y Cynllun ar unrhyw adeg ei ychwanegu at Gronfa Ddata Personau â Diddordeb a bydd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfnod allweddol yn natblygiad y Cynllun.

*Cyflawnwyd:* Anfonwyd e-bost a llythyrau ysgrifenedig at bawb ar y Gronfa Ddata yng nghyfnodau allweddol yn natblygiad y Cynllun.

### b) Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned

*Nod y Cytundeb Cyflawni*: Trefnir cyfarfodydd penodol i ardaloedd gyda chynrychiolwyr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac Aelodau priodol y Cyngor ar adegau allweddol ym mharatoad y Cynllun. Bydd y rhain yn darparu fforwm i drafod y polisïau a'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwahanol rannau o'r Sir. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cynnwys Cymdeithas **Cynghorau Lleol** Sir Benfro (CCLlP) ac Un Llais Cymru, y mae'r ddau ohonynt yn sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli cynghorau lleol yng Nghymru.

Mae gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned rôl allweddol i'w chwarae o ran lledaenu gwybodaeth am y CDLl yn eu hardal leol. Byddant hefyd yn bwysig o ran darparu gwybodaeth a safbwyntiau i siapio'r cynigion ar gyfer eu hardaloedd. Gofynnwyd i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned enwebu arweinydd CDLl, fydd yn dosbarthu gwybodaeth i gynghorwyr eraill a, gan weithio gyda'r Clerc, yn cydlynu ymatebion i'r Cyngor drwy gydol proses y Cynllun.

*Cyflawnwyd:* Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar adegau allweddol. Gofynnwyd i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned enwebu arweinydd CDLl sydd wedi derbyn gwybodaeth benodol am y CDLl yn ogystal â Chlerc y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned.

*Manylion ymgysylltu:*

- 6ed/8fed o Ragfyr 2017 (cynigiwyd un sesiwn prynhawn ac un gyda'r nos i bob Cyngor Tref a Chymuned) - Sesiynau Cyflwyno a Thrafod.
- Ionawr 2018
  Adborth i Gynghorau Tref a Chymuned, a chais am Gynghorydd cyswllt yn ogystal â chlercod. Rhoddodd 14 o Gynghorwyr Tref a Chymuned fanylion cyswllt.
- Ionawr 2018
  E-bost diweddaru i hysbysu'r clerc a'r swyddog cyswllt bod oedi cyn yr alwad am safleoedd ymgeisiol.
- Mawrth 2018
  E-bost diweddaru i hysbysu'r clerc a'r swyddog cyswllt y gellid cyflwyno safleoedd ymgeisiol o 14/03/2018 i 14/06/2018.
- Mai 2018

E-bost diweddaru i hysbysu'r clerc a'r swyddog cyswllt bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisiol wedi'i ymestyn i 14/08/2018.

- 11eg o Fehefin 2018 – 20fed o Orffennaf 2018
  Ymgynghoriad ynglŷn â 'Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol '.
- 18fed a 24ain o Orffennaf 2018 Gweithdai ar 'Dwf Gofodol a Dewisiadau'.
- 14eg ac 21ain o Ionawr 2019 Gweithdai ar yr ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir.

### c) Grwpiau Anodd eu Cyrraedd

*Nod y Cytundeb Cyflawni:*

- Pobl Ifanc – Bydd y Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd sydd wedi ei sefydlu yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei hystyried yn y broses. Defnyddir Seminar Ieuenctid hefyd fydd yn dwyn disgyblion o Ysgolion Uwchradd lleol ynghyd.
- Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioeau Teithiol – Mae gan Sir Benfro boblogaeth breswyl gymharol fawr o Sipsiwn a Theithwyr, sy'n byw ar safleoedd ac mewn llety dan do hefyd. Mae yna yn ogystal nifer fechan o Bobl Sioeau Teithiol yn y Sir. Caiff y boblogaeth hon ei chyrraedd yn bennaf drwy ddefnyddio'r sianelau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes – sef drwy'r Rheolwr Cynllunio Polisi a Newid (Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro) a thrwy Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

*Cyflawnwyd:* Cynhaliwyd Seminar Ieuenctid ym mis Mawrth 2019 i drafod y cyfeiriad a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir ac i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Nid yw Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd bellach yn bodoli ac felly ni chafodd ei ddefnyddio fel grŵp i ddibenion ymgysylltu.

Mae ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi digwydd yn bennaf drwy Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Safleoedd Awdurdodau Lleol a chynrychiolydd grŵp cymunedol. Mynychodd swyddogion gyfarfodydd y grŵp hwnnw ar y 5ed o Fehefin 2018, y 30ain o Ionawr 2019 a'r 3ydd o Hydref 2019. Tynnwyd sylw at gyfleoedd i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol drwy'r cyfarfodydd. Cynhaliwyd adolygiad cynnar o Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) ac fe'i goruchwyliwyd gan y Grŵp Llywio. Mae'r GTAA hwn a ddiweddarwyd wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo.

### ch) Aelodau Etholedig

*Nod y Cytundeb Cyflawni:*

Cydnabyddir bod cynnwys Aelodau Etholedig Cyngor Sir Penfro drwy gydol proses y Cynllun yn allweddol bwysig gan y Cynllun Cynnwys y Gymuned. Mae rôl Aelodau yn ystod y gwaith o baratoi'r Cynllun yn gymhleth ac yn amrywiol. Byddant yn darparu

gwybodaeth am eu hardaloedd lleol ac yn eu cynrychioli, yn dosbarthu gwybodaeth i drigolion lleol a hefyd yn rhoi mewnbwn strategol ar faterion sy'n effeithio ar holl ardal y Cynllun. Cynhelir seminarau i Aelodau cyn cyfarfodydd y Cabinet pan fydd y CDLl yn cael ei ystyried. Yr Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Chynaladwyedd sy'n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn yng nghyfnodau'r Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo. Bydd ei angen hefyd ar gyfer y Cytundeb Cyflawni, yn dilyn ymgynghori ond cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

*Cyflawnwyd:* Cynhaliwyd Seminarau Aelodau yn rheolaidd drwy gydol proses Adolygu'r CDLl (cynhaliwyd seminarau ar y 18fed o Ionawr 2018, y 23ain o Ebrill 2018, yr 16eg o Orffennaf 2018, y 30ain o Dachwedd 2018, y 14eg o Fawrth 2019 a'r 22ain o Hydref 2019). Cynhaliwyd Seminarau Aelodau i drafod holl gyfnodau allweddol y Cynllun yn ogystal â chyfnodau anstatudol megis ystyried y dewisiadau strategol. Cafodd pob cyfnod allweddol o'r CDLl ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

Yn ogystal â'r Cabinet a'r Cyngor Llawn, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno dogfennau allweddol i'w Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a Chyn Penderfynu iddo gael craffu arnynt. Roedd hyn yn cynnwys polisïau'r Strategaeth Ddrafft a Ffefrir (13eg o Dachwedd 2019)) a'r Cynllun Drafft i'w Adneuo (12fed o Dachwedd 2019).

### d) Grwpiau Rhanddeiliaid:

*Nod y Cytundeb Cyflawni:* Bydd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol yn cael ei sefydlu. Bydd y grŵp hwn yn helpu i baratoi'r Cynllun drwy roi barn gynrychioliadol yn ystod ei ddatblygiad, hyd at a chan gynnwys y Cyfnod Adneuo. Bydd y grŵp yn cynnwys swyddogion o'r cyrff sy'n ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (BGCP), ynghyd ag arbenigwyr achlysurol sydd ag arbenigedd mewn meysydd pwnc penodol, os bydd angen ar gyfer trafodaeth dechnegol benodol. Caiff materion y CDLl eu trafod mewn cyfarfodydd pwrpasol, yn hytrach nag yng nghyfarfodydd rheolaidd y BGCP.

Efallai y sefydlir grwpiau penodol o randdeiliaid hefyd gan ddefnyddio aelodau o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, os bydd angen. Byddant yn darparu fforwm lle y gellir trafod barn a gellir ymdrechu i gyrraedd consensws ar y ffordd ymlaen ar bynciau neu ardaloedd daearyddol penodol. Gallai'r meysydd pwnc gynnwys:

- Yr economi
- Tai
- Yr amgylchedd
- Cyfleustodau a seilwaith
- Y gymuned, gwasanaethau lleol a diwylliant
- Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol

Lle mae yna grwpiau partneriaeth presennol sydd eisoes yn ymdrin â'r pynciau a nodwyd, gall cysylltu â'r grwpiau hyn gynnig dewis arall yn lle sefydlu grwpiau rhanddeiliaid pwnc.

Yn rhai achosion, gellir cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid unigol hefyd.

*Cyflawnwyd:* Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid allweddol. Mae'n cynnwys swyddogion o gyrff y BGCP ac arbenigwyr eraill. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol ar y 19eg o Ebrill 2018, y 19eg o Orffennaf 2018 a'r 23ain o Ionawr 2019. Mae nodyn o'r cyfarfodydd hyn ar gael fel rhan o sylfaen dystiolaeth y Cyngor.[13]

Trefnwyd cyfarfod penodol o Asiantau a Datblygwyr i ystyried y tybiaethau Hyfywedd sy'n ategu'r Cynllun Adneuo. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar yr 17eg o Hydref 2019.

Mae cyfarfodydd a thrafodaeth benodol wedi'u cynnal hefyd gyda darparwyr allweddol megis Dŵr Cymru a'r Awdurdod Priffyrdd Lleol.

### dd) Partneriaethau sy'n bod eisoes

*Nod y Cytundeb Cyflawni*:

Bydd y Cyngor yn ceisio integreiddio ei ymgyngoriadau a gweithgareddau'r Cynllun Datblygu Lleol gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan bartneriaethau eraill, lle bynnag y bo hyn yn bosibl. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Panel Busnes Sir Benfro
- Rhwydwaith Busnes Sir Benfro
- Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- Bwrdd Partneriaeth Cyd-gomisiynu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaeth Natur Leol
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Grŵp Gweithredol Plant a Theuluoedd
- Gweithgor Tai Fforddiadwy
- Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro
- Fforwm Trafnidiaeth Leol
- Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro
- Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro

Disgwylir y bydd y gwaith y mae'r Partneriaethau hyn yn ei wneud eisoes yn gymorth i gyfrannu at gynnwys y CDLl newydd.

*Cyflawnwyd:*

Cyflwynwyd trosolwg o broses y CDLl i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ar yr 21ain o Dachwedd 2017.

Fel yr eglurwyd uchod, cafwyd cysylltiad rheolaidd â nifer o grwpiau allweddol, yn cynnwys y Gweithgor Tai Fforddiadwy a Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

[13]

Cynhelir cyfarfodydd gyda Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro bob tri mis a rhoddwyd diweddariad ar y CDLl ym mhob cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr y grŵp hwn i gyfarfod Hyfywedd penodol ym mis Hydref 2019.

Cysylltwyd â Fforymau eraill lle roedd yn briodol am ddarnau penodol o dystiolaeth, er enghraifft, cyfwelwyd â chysylltiadau ar Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Phanel Busnes Sir Benfro a Rhwydwaith Busnes Sir Benfro fel rhan o Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir. Mae swyddogion o'r Bartneriaeth Natur Leol wedi rhoi cyngor yn ystod proses y Safleoedd Ymgeisiol.

### e) 'Cyrff Ymgynghorol Penodol' ac 'Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig'

*Nod y Cytundeb Cyflawni:* Mae'r ymgyngoreion hyn (y cyfeirir atynt fel grwpiau B2 a B3 yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol 2015) yn cynnwys y cyrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n gymwys o fewn ardal y Cynllun, er enghraifft Dŵr Cymru, sef yr ymgymerwr dŵr lleol. Mae angen i'r Awdurdod ymgynghori hefyd ag Adrannau yn Llywodraeth y DU pan fydd agweddau ar y cynllun yn ymddangos fel pe baent yn effeithio ar eu buddiannau hwy.

Bydd yr ymgyngoreion hyn yn cael cyfle i roi sylwadau ar adegau ffurfiol allweddol ym mharatoad y Cynllun. Gall rhai o'r grwpiau hyn hefyd fod yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill.

*Cyflawnwyd:* Mae ymgyngoreion wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ar adegau allweddol ym mharatoad y Cynllun. Mae nifer o ymgyngoreion wedi cael eu gwahodd hefyd i fynychu grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y Cyngor.

### f) Cyrff Ymgynghorol Cyffredinol

*Nod y Cytundeb Cyflawni*: Mae cyrff ymgynghorol cyffredinol yn cynnwys cyrff gwirfoddol, y rheiny sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, crefyddol, ethnig, cenedlaethol neu anabl gwahanol yn ardal y Cynllun, yn ogystal â'r rheiny sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n rhedeg busnesau a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru.

'Ymgyngoreion Eraill' yw'r rheiny nad ydynt o reidrwydd yn dod o fewn y categorïau uchod, ond sydd â diddordeb er hynny yn ardal y Cynllun, y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol effeithio arnynt.

Caiff y cyrff hyn gyfle i roi sylwadau ar adegau ffurfiol allweddol (statudol). Efallai bod rhai o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill.

*Cyflawnwyd:* Mae ymgyngoreion wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ar adegau allweddol yng nghynhyrchiad y Cynllun. Gwahoddwyd nifer o ymgyngoreion hefyd i fynychu grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y Cyngor neu eistedd ar grwpiau eraill megis Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro.

**ff) Asiantau Cynllunio a Datblygu a'r rheiny sy'n awgrymu tir ar gyfer ei ddatblygu**

*Nod y Cytundeb Cyflawni*: Defnyddir Fforwm Asiantau Cynllunio Presennol Sir Benfro, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r Awdurdod Cynllunio Lleol, datblygwyr lleol, penseiri ac asiantau eraill sy'n gweithio yn Sir Benfro i sicrhau bod barn Asiantau a Datblygwyr yn y Sir yn cael ei hystyried wrth baratoi'r Cynllun.

Bydd y rheiny sy'n dymuno cyflwyno darnau o dir yr hoffent eu gweld yn cael eu nodi i'w datblygu neu i ddibenion eraill yn cael y cyfle i wneud hynny drwy broses y Safleoedd Ymgeisiol. Bydd unrhyw un sydd wedi ei ychwanegu at Gronfa Ddata Pobl sydd â Diddordeb yn derbyn llythyrau rheolaidd fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar brosesau paratoi'r Cynllun. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi galwad ffurfiol am Safleoedd Ymgeisiol ac yn paratoi ffurflen cyflwyno Safle Ymgeisiol a nodyn esboniadol byr ar gyfer y rheiny sy'n dymuno cyflwyno Safle Ymgeisiol. Mae'r ffurflen safonedig yn sicrhau bod digon o ddata ynghlwm wrth bob Safle Ymgeisiol a gyflwynir, fydd wedyn yn gwneud asesiad cadarn yn bosibl. Rhaid gwneud pob cyflwyniad drwy'r Ffurflen Cyflwyno Safle Ymgeisiol a'i dychwelyd i'r Tîm Cynlluniau Datblygu drwy e-bost yn LDP@pembrokeshire.gov.uk neu drwy'r post i'r *Tîm Cynlluniau Datblygu, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP.*

*Cyflawnwyd:*

Fel y nodir uchod, cynhelir Cyfarfodydd gyda Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro bob tri mis a rhoddwyd diweddariadau ar y CDLl ym mhob cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r grŵp hwn i gyfarfod Hyfywedd penodol ym mis Hydref 2019.

Mae pawb a gyflwynodd Safleoedd Ymgeisiol neu a gyflwynodd sylwadau ar Safleoedd Ymgeisiol wedi'u hychwanegu at gronfa ddata'r Cygor ac felly maent wedi derbyn gohebiaeth ysgrifenedig ar bob cam allweddol yn natblygiad y Cynllun.

# Pennod 3: Y Prif Faterion a nodwyd drwy'r Ymgynghoriad Cyn Adneuo

Mae'r rheiny a ymatebodd i'r Ymgynghoriad Cyn Adneuo wedi codi nifer o faterion. Nodir y prif faterion isod.

1. **Sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r Strategaeth a Ffefrir**

Mae adroddiad llawn sy'n cynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd ag adroddiad y Cyngor, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. Rhestrir y materion pwysicaf isod, ynghyd â'r dull a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Cymeradwywyd yr ymatebion hyn gan Gyngor Llawn Cyngor Sir Penfro ar y 9fed o Fai 2019.[14]

## Lefelau Twf

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau am lefel y tai a gynigir gan yr Awdurdod. Er bod nifer fechan o ymatebion yn awgrymu y dylai'r Awdurdod ystyried lefelau is o dwf yn gyffredinol er mwyn diogelu'r amgylchedd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar y cyfan naill ai'n cefnogi lefel y twf a nodwyd neu'n awgrymu y dylid nodi lefel uwch o dwf. Roedd y rhai a oedd yn cynnig lefel uwch o dwf yn tueddu i fod yn unigolion neu'n sefydliadau oedd yn hyrwyddo safleoedd penodol i'w datblygu. Nododd Llywodraeth Cymru fod y lefelau twf a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yn cyd-fynd â'r cyfartaleddau adeiladu dros 10 mlynedd yn Sir Benfro.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Ni chynigiwyd newid yn lefel y twf a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, derbynnir gostyngiad o 15% i 10% yn y lwfans hyblygrwydd ar gyfer tai yn y Cynllun Adneuo.*

## Dosbarthiad Gofodol – Rhaniad 60% Trefol/40% Gwledig

Roedd strategaeth a ffefrir y CDLl yn cynnig rhaniad 60%/40% Trefol/Gwledig o ddyraniadau tai (safleoedd dros 5 uned). Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r rhaniad poblogaeth presennol yn Sir Benfro.

Roedd Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu'r dosbarthiad gofodol arfaethedig, gan awgrymu nad dyma'r strategaeth fwyaf cynaliadwy, a nodai eu bod hwy o'r farn y byddai Opsiwn 1, sef 70% Trefol/30% Gwledig yn cyd-fynd yn well ag amcanion Deddf Teithio Llesol drwy hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy. Mae YDCW hefyd wedi gwrthwynebu ar sail cynaliadwyedd, gan awgrymu y byddai rhaniad o 65%/35% yn fwy addas.

Mae nifer o wrthwynebwyr wedi cefnogi'r strategaeth ofodol gan gynnwys Ateb, a nododd fod cynaliadwyedd yn ymwneud â nifer o agweddau yn ogystal â hygyrchedd cyfleusterau. *"Heb ddarparu tai newydd mewn aneddiadau fel Treletert, mae yna risg y byddai materion fforddiadwyedd yn codi mewn aneddiadau mwy gwledig ac y byddai*

[14] http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=285&MId=4343&Ver=4&LLL=0

*hyfywedd gwasanaethau presennol o dan fygythiad. Mae angen datblygiad newydd i gefnogi hyfywedd y gwasanaethau hyn".* Mae APCAP wedi cefnogi'r strategaeth gan nodi bod dull y ddau Awdurdod yn gyffelyb.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Ni chynigiwyd newid yn strategaeth dosbarthiad gofodol y CDLl. Caiff tystiolaeth ychwanegol ei datblygu i ddangos pam mai'r rhaniad 60/40 yw'r strategaeth fwyaf addas ar gyfer Sir Benfro a sut y gall sicrhau datblygiad cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth fod modd cyflawni safleoedd o feintiau priodol, gwybodaeth am y cyfleoedd sy'n cael eu creu gan dechnoleg newydd a gweithio gartref, effeithiau posibl dull mwy trefol ar yr economi wledig a hefyd wybodaeth am yr iaith Gymraeg a'r angen am Dai Fforddiadwy.*

## Diwygiadau i'r Cyd-destun a Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

Cynigiwyd nifer o fân ddiwygiadau i'r Cyd-destun, y Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion. Lle mae'r rhain yn gwneud pethau'n eglurach neu'n gwneud y Cynllun yn gadarnach drwy egluro'r cysylltiadau â dulliau polisi, maent yn cael eu cefnogi.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Cefnogir diwygiadau i'r Cyd-destun, y Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion mewn achosion lle byddai'r rhain yn cynyddu eglurder neu gadernid y cynllun, neu lle byddai hyn yn egluro cysylltiadau â dulliau polisi.*

## Angen tystiolaeth ychwanegol mewn rhai meysydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen i'r Awdurdod ddatblygu tystiolaeth ychwanegol yn rhai meysydd pwnc. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws nifer o feysydd technegol i fynd i'r afael â'r sylw hwn a gofynion polisi a chanllawiau cenedlaethol.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Mae CSP yn cydnabod bod angen cynnal rhagor o waith tystiolaeth mewn nifer o feysydd technegol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Adneuo. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Asesiad wedi ei ddiweddaru o'r Farchnad Dai Leol, Asesiad Hyfywedd Lleol ac Astudiaeth Economaidd Dwy Sir. Cynhelir Asesiad wedi ei ddiweddaru o Lety Sipsiwn a Theithwyr hefyd i gefnogi'r Cynllun Adneuo.*

## Newidiadau yn Hierarchaeth yr Aneddiadau

Cyhoeddwyd Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018, yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad cyn Adneuo (gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir) gael ei gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei hymateb bod rhaid diweddaru unrhyw gyfeiriadau at Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), yn y cynllun ac yn y sail dystiolaeth ategol, i gyfeirio at ac adlewyrchu egwyddorion Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru, yn enwedig cludiant cynaliadwy, sy'n sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn lleihau'r angen i deithio ac yn rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

*Dull Cyngor Sir Penfro:* Cyflwynwyd nifer o ddiweddariadau i'r Astudiaeth o Gyfleusterau Gwledig sy'n llywio Hierarchaeth yr Aneddiadau ym mis Ebrill 2019. Mae'r diweddariadau hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r safbwyntiau diweddaraf a roddwyd gan Aelodau, Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'r cyhoedd. Mae'r sgorio hefyd yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am lwybrau cludiant cyhoeddus gan Adran Briffyrdd CSP, gan adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb i Argraffiad 10 o PCC, ychwanegwyd pwynt newydd sy'n rhoi pwysedd i aneddiadau sydd â llwybr beicio neu lwybr cyd-ddefnyddio. Mae trothwyon mewn perthynas â'r boblogaeth hefyd wedi'u hychwanegu at y sgorio.

Mae'r newidiadau a argymhellwyd wedi arwain at y canlyniadau dilynol:

Sylwch, os gwelwch yn dda: Ni chynigir unrhyw newidiadau i aneddiadau a nodir fel Trefi.

**Canolfannau Gwasanaeth**

(30+ pwynt a lleiafswm poblogaeth o 500+ neu boblogaeth o 1000+ gyda 25 pwynt o leiaf)

– Dim newid o'r Strategaeth a Ffefrir

**Pentrefi Gwasanaeth**

(11-29 pwynt a lleiafswm poblogaeth o 100+)

Newid o 48 o Bentrefi Gwasanaeth i 45 o Bentrefi Gwasanaeth gyda'r newidiadau canlynol:

- Colli: Burton, Bwlch-Y-Groes, Dwyrain Williamston, Capel Newydd, Redberth, a Waterston

- Ennill: Scleddau a Hill Mountain

**Pentrefi Lleol**

(5-10 pwynt a lleiafswm poblogaeth o 30+ neu gyda phoblogaeth o 100+ neu gyda siop leol yn bod eisoes)

Newid o 58 o Bentrefi Lleol i 51 o Bentrefi Lleol gyda'r newidiadau canlynol:

- Colli: Bethesda, Bridell, Glan-dŵr, Gumfreston, Hill Mountain (symudwyd i fyny), Llanfyrnach, Llys-y-Fran, Martletwy, Poyeston Cross, Porth y Tywysog, Rhoscrowther, Rhos-Hill, Scleddau (symudwyd i fyny), Treffynnon, Tufton a Welsh Hook (mae llawer o'r newidiadau yn ganlyniad diweddariadau bysiau)

- Ennill: Barnlake, Burton, Bwlch-y-Groes, Cuffern, Dwyrain Williamston, Capel Newydd, Redberth, Dwyrain Walton, Waterson a Bryngwyn

**Heb eu diffinio** (0-4 pwynt) Caiff pob lleoliad arall ei ystyried naill ai'n Bentref Bach neu'n Gefn Gwlad yn dibynnu ar ei nodweddion ffisegol.

Ceir rhestr lawn o'r holl aneddiadau a'u safle diwygiedig yn yr Hierarchaeth, yn dangos newidiadau ers y safle yn y Strategaeth a Ffefrir yn **Atodiad B.**

**Materion y Gymraeg**

Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwrthwynebu'r Strategaeth a Ffefrir ac yn ystyried y dylid mabwysiadu dull mwy dan arweiniad y cymunedau. Maent o'r farn y dylid ystyried effaith pob dewis ar y Gymraeg. Roeddent yn nodi dull yr Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol fel un cadarnhaol. Maent hefyd yn bryderus nad yw polisi SP17 yn gymwys ond mewn ardaloedd lle mae mwy nag 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac yn ystyried y dylai hyn fod yn wir ar draws Sir Benfro.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi "*Mae'r aneddiadau i'r gogledd o'r Sir wedi'u nodi fel ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn bwysig, ond nid yw'n eglur sut mae hyn wedi dylanwadu ar raddfa a dosbarthiad tai yn yr aneddiadau hyn ac a gynigir unrhyw fesurau i liniaru effeithiau datblygiad newydd."* Yn nhermau datblygu dull ar gyfer y Cynllun Adneuo, maent wedi awgrymu y byddai'r Cynllun Adneuo yn elwa o asesiadau pellach mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cynhaliodd CSP Arfarniad Cynaladwyedd ar bob dewis a ystyriwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir. Un Amcan Arfarnu Cynaladwyedd penodol (7) yw: Diogelu a gwella swyddogaeth yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Felly aseswyd pob dewis ar sail eu perfformiad yn erbyn yr amcan hwn. Mae'r dull o nodi'r rhannau o'r Sir sydd fwyaf sensitif o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. O ran maint a dosbarthiad tai yng ngogledd y Sir - bydd hyn yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a chapasiti aneddiadau unigol. Bydd asesiad o Safleoedd Ymgeisiol unigol yn ystyried maint cyffredinol cynnig mewn perthynas â maint yr anheddiad unigol a'r potensial i hyn effeithio ar y Gymraeg. Mae'r dull Anheddu 'Clwstwr' yn ymgais benodol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Sir Benfro ac i alluogi datblygiadau ar raddfa fechan mewn aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn gryf er mwyn cefnogi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn eu cymunedau. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach o Bentrefi Lleol sydd â'r potensial i ddod yn Bentrefi Lleol Clwstwr yn seiliedig ar asesiad wedi'i ddiweddaru o gyfleusterau gwledig yn adroddiad yr Arolwg o Gyfleusterau Gwledig Ebrill 2019. Ni nodwyd unrhyw Bentrefi Lleol fel Pentrefi Lleol Clwstwr yn seiliedig ar y siaradwyr Cymraeg o fewn ardal y Cyngor Cymuned. Felly, er bod CSP yn nodi cyngor Llywodraeth Cymru ar ddull y Cynllun Adneuo, ni fu cyfle i ymgorffori hyn wrth symud ymlaen. Caiff cyfleoedd i gymunedau gefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol eu cefnogi yn y Cynllun Adneuo.

*Dull Cyngor Sir Penfro:* Mae CSP yn nodi'r sylwadau a wnaed. Wrth asesu Safleoedd Ymgeisiol, caiff yr effaith bosibl ar y Gymraeg ei hystyried pan asesir safleoedd o ran eu maint a'u lleoliad. Caiff gwaith pellach ar gyfiawnhau'r trothwy o 20% ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo. Bydd cyfeiriad at Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol wedi ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo.

## Yr Amgylchedd – Newid yn yr Hinsawdd, Parthau Perygl Nitradau Posibl, SuDS, Ynni Adnewyddadwy

Awgrymodd Llywodraeth Cymru nad oedd y strategaeth a ffefrir yn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Deddf yr Amgylchedd Cymru. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cefnogi polisi newydd y CDLl ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd ac mae wedi croesawu ei ddull o weithredu. Mewn cyfarfod gyda LlC ym mis Chwefror i drafod eu sylwadau, cadarnhaodd swyddogion LlC y byddai newid i deitl polisi strategol SP 11 a chyflwyno cyfeiriad penodol at Seilwaith Gwyrdd o fewn y polisi ei hun, yn hytrach nag yn y cyfiawnhad rhesymedig, yn ddigon i fodloni eu gwrthwynebiad.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi tynnu sylw at yr angen i sôn am amaethyddiaeth yn SP 11 er mwyn manteisio ar y posibilrwydd o gyflwyno parthau perygl nitradau. Maent hefyd wedi cefnogi cyfeiriadau at Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn y strategaeth a ffefrir. Maent wedi cwestiynu'r ymagwedd gyfredol at SP1 a'i gadernid. Mae CNC wedi codi nifer o gwestiynau technegol manwl mewn perthynas â pherygl llifogydd a'r dystiolaeth y mae CSP yn ei chasglu yn ogystal â rhai sylwadau manwl pellach ar gyfeiriadau yn y testun.

O ran Ynni Adnewyddadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi codi nifer o faterion technegol gyda sylfaen dystiolaeth y cynllun. Trafodwyd y rhain mewn cyfarfod gyda swyddogion a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i gefnogi dull y Cynllun Adneuo cyn ei gyhoeddi.

*Dull Cyngor Sir Penfro: lle y byddai newidiadau a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru a CNC yn gwella eglurder neu gadernid, caiff y rhain eu hymgorffori yn y Cynllun Adneuo. CNC yw'r grŵp llywio ar gyfer yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd sydd ar ddod a byddant hefyd yn un o'r ymgyngoreion allweddol ar Safleoedd Ymgeisiol a fydd yn golygu y byddant yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â materion llifogydd yn y Cynllun Adneuo.*

## Darparu Safleoedd Allweddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y sylwadau canlynol ar Safleoedd Tai Strategol:

> *"Mae darparu tai yn dibynnu ar yr awdurdod yn dyrannu safleoedd sy'n gyflawnadwy yn gyffredinol ac yn unol â'i strategaeth ofodol. Mae'r awdurdod yn cydnabod "yn hanesyddol, nid yw rhai Safleoedd Tai Strategol mawr wedi cael eu datblygu. Mae safleoedd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael eu dwyn ymlaen gan y farchnad dai leol" (tudalen 21). Os yw'r awdurdod yn bwriadu cynnwys safleoedd tai strategol yn y Cynllun Adneuo, rhaid i'r dystiolaeth ddangos eu bod yn gyflawnadwy. Ychydig o gynnydd y mae'r pedwar safle mawr yng ngogledd Lôn Slade, a de Lôn Slade, Maesgwyn a Lôn Shoals Hook, fel y'u crynhoir yn AMR 2017/18, yn ei ddangos o ran darparu unedau mewn gwirionedd. Bydd angen cyfiawnhad pellach i'r safleoedd hyn aros yn y cynllun."*

Mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r angen i ddangos bod ei Ddyraniadau Tai yn rhai y gellir eu cyflawni. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo drwy wahanol gomisiynau, y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac asesu Safleoedd Ymgeisiol i sicrhau bod y dyraniadau hynny a nodwyd yn y Cynllun Adneuo yn briodol a chyflawnadwy.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Mae CSP yn nodi sylwadau Llywodraeth Cymru ar ymarferoldeb. Bydd CSP yn cynnal asesiadau safle ar Safleoedd Ymgeisiol yn unol â'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol cyhoeddedig a'r canllawiau yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Nodwyd y strategaeth 60/40 yn rhannol fel dull o sicrhau y gellir dyrannu safleoedd priodol ac ymarferol yn y Cynllun Adneuo.*

**Mwynau – Adnoddau Tywod a Graean**

Nododd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb nad oes digon o gronfeydd tywod a graean wrth gefn yn rhanbarth Gorllewin Cymru ac y dylai'r awdurdodau weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r diffyg a nodi safleoedd penodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael gwybod bod y Datganiad Technegol Rhanbarthol am Agregau ar gyfer De Cymru yn cael ei ail adolygu ar hyn o bryd.

Hysbysebwyd galwad fwyaf diweddar CSP am Safleoedd Ymgeisiol yn eang fel rhan o'r Ymgynghoriad cyn Adneuo a thynnwyd sylw tirfeddianwyr a gweithredwyr presennol y chwareli. Mae tri Safle Ymgeisiol ychwanegol wedi eu cynnig bellach ar gyfer tywod a graean – dau gan CSP fel tirfeddiannwr ac un gan weithredwr chwarel presennol. Bydd y rhain yn cael eu hasesu fel rhan o broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol.

*Dull Cyngor Sir Penfro: Mae CSP wedi nodi'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg rhanbarthol o ran cronfeydd tywod a graean yn yr Adroddiad Adolygu ac yn y Strategaeth a Ffefrir hefyd. Aseswyd Safleoedd Ymgeisiol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo a bydd CSP yn parhau i gydweithio ar sail ranbarthol ar y mater hwn.*

## 2. Ymatebion i’r Adroddiad Adolygu

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau o bwys i'r Adroddiad Adolygu. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gefnogol ar y cyfan (gweler Atodiad C).

## 3. Ymatebion i'r Adroddiad Arfarnu Cynaladwyedd Cychwynnol ac i Adroddiad Sgrinio Arfarnu Rheoliadau Cynefinoedd

Derbyniwyd sylwadau'r ymgynghoriad ar adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaladwyedd gan APCAP. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar fân newidiadau i'r matricsau gwerthuso, nad ydynt yn newid casgliadau cyffredinol yr arfarniad. Ni chafwyd unrhyw sylwadau eraill heblaw am sylw cyffredinol gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at yr angen i CSP sicrhau ein bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol. (Gweler Atodiad D).

Derbyniwyd sylwadau ar yr Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd gan APCAP a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yr oedd y rhain yn fyr iawn; cadarnhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru bod yr arfarniad yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys manylion yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn Sir Benfro a'r cyffiniau. Mae APCAP wedi cynnig geiriad ychwanegol (yn SP11) neu bolisi ychwanegol ar safleoedd Ewropeaidd (gweler Atodiad D).

*Dull Cyngor Sir Penfro: Cefnogir diwygiadau i adroddiad cychwynnol yr arfarniad o gynaladwyedd mewn achosion lle y byddai'r rhain yn gwneud y dull yn gliriach neu'n gadarnach, neu lle byddai hyn yn egluro cysylltiadau â dulliau polisi. Ychwanegir geiriad ychwanegol i adlewyrchu'r safleoedd Ewropeaidd yn Sir Benfro i SP 11.*

## 4. Ymatebion i Gofrestr y Safleoedd Ymgeisiol

Fe wnaeth yr ymgynghoriad ynghylch dros 450 o Safleoedd Ymgeisiol, a gynigiwyd gan y cyhoedd i'w datblygu neu eu diogelu, greu diddordeb sylweddol mewn rhai lleoliadau daearyddol. Roedd y 'mannau poeth' ar gyfer ymatebion yn cynnwys Heol Haven a Heol Douglas James yn Hwlffordd, Dwyrain Williamston, Hook, Penalun, Pentlepoir a Wooden a St Mary's Field yn Abergwaun. Tueddai'r ymatebion i fod yn gefnogol gan hyrwyddwr y safle, gyda thrigolion lleol yn dueddol o wrthwynebu am resymau amrywiol, gan gynnwys mynediad, tirwedd, capasiti carthffosiaeth, diffyg gwasanaethau a materion eraill.

Trafodwyd Safleoedd Ymgeisiol yn fanwl gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod y gweithdai a gynhaliwyd ym mis Ionawr – gweler adroddiad yr ymgynghoriad ar dudalen sylfaen dystiolaeth y CDLl.[15]

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019 ymgynghorodd CSP yn ffurfiol ag ymgyngoreion allweddol a statudol, gan gynnwys Priffyrdd, Cefnffyrdd, CNC, ymhlith eraill ar y safleoedd hynny sy'n cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau ddiwygiedig.

Bydd Adroddiad Asesu Safle Terfynol yn rhoi manylion yr holl sylwadau a dderbyniwyd ar Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei gyhoeddi gyda'r Cynllun Adneuo. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cofnodi'r canlyniad cychwynnol ar gyfer pob Safle Ymgeisiol a gyflwynwyd.

### Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol a Gynigiwyd

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o safleoedd ychwanegol ar draws ardal yr Awdurdod. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor – gweler

https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/candidate-sites.

Trafodwyd y Safleoedd Ymgeisiol ychwanegol hyn gyda'r Aelodau yn ystod Seminar ym mis Mawrth. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ynglŷn â'r safleoedd hyn rhwng mis Ebrill a mis Mai/Mehefin dros gyfnod o 6 wythnos. Cafodd y safleoedd

[15] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base

hynny a oedd yn cyd-fynd â hierarchaeth aneddiadau ddiwygiedig hefyd eu hanfon at ymgyngoreion allweddol a statudol er mwyn cael sylwadau arnynt rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019.

Fel gyda'r Safleoedd Ymgeisiol gwreiddiol a gynigiwyd, cyhoeddir Adroddiad Asesu Safle Terfynol yn rhoi manylion y sylwadau technegol a dderbyniwyd ar safleoedd gyda'r Cynllun Adneuo mewn Adroddiad Asesu Safle.

## Pennod 4: Sylwadau Hwyr

Yn y Cytundeb Cyflawni, mae'r Cyngor yn datgan:

> "*Bydd y Cyngor yn gadarn ei safbwynt ar derfynau amser a rhaid i'r holl sylwadau gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau penodedig. Yn ôl disgresiwn y Cyngor yn unig y caiff sylwadau hwyr eu derbyn. Pan fydd sylwadau / cyflwyniad yn hwyr, ni fydd y Cyngor yn caniatáu iddo sefyll ond lle darperir tystiolaeth i ddangos sut y gwnaed ymgais ddiffuant i gyflwyno o fewn y terfyn amser. Fel arall, mae'r broses yn cael ei dal yn ôl a bydd y rhai a gyflwynodd yn brydlon yn cael eu cosbi."*

Yr oedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd mewn pryd, neu os oeddent yn hwyr, yn cael eu derbyn gan y Cyngor fel rhai a oedd yn cydymffurfio â'r dull a gyhoeddwyd ganddo mewn amgylchiadau o'r fath.

# Pennod 5: Tabl Trosi Polisi

| Rhif Polisi'r Strategaeth a Ffefrir | Rhif Polisi'r Cynllun Adneuo |
|---|---|
| SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy | SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy |
| SP 2 Y Tai sydd eu Hangen | SP 2 Y Tai sydd eu Hangen |
| SP 3 Targed Tai Fforddiadwy | SP 3 Targed Tai Fforddiadwy |
| SP 4 Cefnogi Ffyniant | SP 4 Cefnogi Ffyniant |
| SP 5 – Hierarchaeth Aneddiadau | SP 5 – Hierarchaeth Aneddiadau |
| SP 6 Ffiniau Aneddiadau | SP 6 Ffiniau Aneddiadau |
| SP 7 Prif Drefi | SP 7 Prif Drefi |
| SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth | SP 8 Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth |
| SP 9 Pentrefi Lleol | SP 9 Pentrefi Lleol |
| SP 10 Cefn Gwlad | SP 10 Cefn Gwlad |
| SP 11 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd | SP 11 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd |
| SP 12 Porthladd a Datblygiad Cysylltiedig ag Ynni | SP 12 Porthladd a Datblygiad Cysylltiedig ag Ynni |
| SP 13 Darparu Tir Cyflogaeth | SP 13 Darparu Tir Cyflogaeth |
| SP 14 Hierarchaeth Manwerthu | SP 14 Hierarchaeth Manwerthu |
| SP 15 Economi Ymwelwyr | SP 15 Economi Ymwelwyr |
| SP 16 Mwynau | SP 16 Mwynau |
| SP 17 Y Gymraeg | SP 17 Y Gymraeg |
| SP 18 Seilwaith a Hygyrchedd Cludiant | SP 18 Seilwaith a Hygyrchedd Cludiant |
| SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff | SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff |
| | |
| GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol | GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol |
| GN 2 Dylunio Cynaliadwy | GN 2 Dylunio Cynaliadwy |
| GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd | GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd |
| GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel |
| GN 5 Datblygu mewnlenwi mewn Pentrefi Bychain | GN 5 Ynni Adnewyddadwy – Targed a Dyraniadau |
| | GN 6 Cynigion Cyflogaeth |
| | GN 7 Dyraniadau Cyflogaeth |
| | GN 8 Cynigion Defnydd Cymysg Tai a Chyflogaeth |
| | GN 9 Amddiffyn Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth |
| | GN 10 Estyniadau i Safleoedd Cyflogaeth |
| | GN 11 Datblygiad Preswyl |
| | GN 12 Datblygu mewnlenwi mewn Pentrefi Bychain |
| | GN 13 Cymysgedd Tai, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Tai Oes |
| | GN 14 Dyraniadau Preswyl |
| | GN 15 Targed Safleoedd Bychain |
| | GN 16 Anghenion Lleol Tai Fforddiadwy |
| | GN 17 Safleoedd sy'n Eithriadau i Anghenion Lleol Tai Fforddiadwy |
| | GN 18 Llety Arbenigol gyda Chymorth |

| | |
|---|---|
| | GN 19 Dyraniadau Llety Arbenigol a gyda Chymorth |
| | GN 20 Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr |
| | GN 21 Telegyfathrebu a Seilwaith Technoleg Ddigidol |
| | GN 22 Amddiffyn a Chyfoethogi'r Amgylchedd Hanesyddol |
| | GN 23 Cyfleusterau Hanesyddol |
| | GN 24 Dyraniadau Cyfleusterau Cymunedol |
| | GN 25 Manwerthu a Datblygu Canolfan Fasnachol |
| | GN 26 Manwerthu allan o'r canol a Datblygu Masnachol |
| | GN 27 Amrywio Ffermio |
| | GN 28 Trosi neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol |
| | GN 29 Marinas |
| | GN 30 Llwybrau Cludiant a Gwelliannau |
| | GN 31 Gweithio Mwynau |
| | GN 32 Diogelu ac Echdynnu Adnoddau Mwynau ymlaen llaw |
| | GN 33 Agregau Eilradd a Gwastraff Mwynau wedi'i Ailgylchu |
| | GN 34 Parthau Byffer o gwmpas Safleoedd Mwynau |
| | GN 35 Seilwaith Gwyrdd |
| | GN 36 Newid Arfordirol |
| | GN 37 Lletemau Gwyrdd |
| | GN 38 Tirlun |
| | GN 39 Cynnal a Chyfoethogi Bioamrywiaeth |
| | GN 40 Amddiffyn a Chreu Mannau Gweithgareddau Hamdden y Tu Allan |
| | GN 41 Amddiffyn Mannau Agored gyda Gwerth Amwynderau |
| | GN 42 Atyniadau Ymwelwyr a Chyfleusterau Hamdden |
| | GN 43 Llety gyda Gwasanaethau a Gwestai |
| | GN 44 Datblygiad Carafanau, Gwersylla a Chalets |
| | GN 45 Cyfleusterau Safle ar Safleoedd Carafanau a Gwersylla presennol. |
| | GN 46 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff |
| | GN 47 Cael Gwared â Gwastraff oddi ar Dir |

# Pennod 6: Y Camau Nesaf

Dyfyniad yw'r tabl isod o'r Cytundeb Cyflawni. Mae'n nodi'r camau yn y broses ac ar ba gam y mae paratoad y Cynllun ar hyn o bryd. Mae LIC yn cytuno bod llithiad o dri mis yn dderbyniol yn yr amserlen a gymeradwywyd ac mae CSP o fewn y paramedrau hyn:

**Rydym ni yma** →

| *Cam Allweddol* | *Amseroedd pendant a dangosol* |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu | Cychwynnodd y paratoad ym mis Mai 2017, gyda'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad anffurfiol ym mis Tachwedd 2017, ochr yn ochr â'r Cytundeb Cyflawni. |
| Cytundeb Cyflawni | Cychwynnodd y paratoad ym mis Mai 2017, gyda'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Tachwedd 2017. |
| Y Strategaeth a Ffefrir | Cychwynnir y paratoad ym mis Gorffennaf 2018, a disgwylir cyhoeddi'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol erbyn mis Rhagfyr 2018. |
| Adneuo | Cychwynnir y paratoad ym mis Ebrill 2019, a disgwylir cyhoeddi'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol erbyn mis Hydref 2019. |
| Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Erbyn Gorffennaf 2020. |
| Archwiliad | Rhwng hydref 2020 a gwanwyn 2021. |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Erbyn haf 2021 |
| Mabwysiadu | Erbyn diwedd haf neu hydref 2021 |

Mae'r tabl isod yn egluro disgwyliadau'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y camau cyn ac yn ystod ymgynghori ar y Cynllun Adneuo.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Paratoi a Chyhoeddi'r Cynllun Adneuo**[16] | • Darparu Adborth a Sylwadau yn ffurf Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol<br>• Adrodd i'r Cyngor am y Strategaeth a Ffefrir ac unrhyw newidiadau<br>• Cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei newid<br>• Ymgynghori ynghylch polisïau a chynigion lleol manwl<br>• Cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun Adneuo<br>• Cyhoeddi, dosbarthu a hysbysebu ac ymgynghori ynghylch y CDLl Adneuo gan gynnwys y dogfennau ategol (**chwe wythnos statudol)**<br>• Sicrhau bod sylwadau ar gael i'r cyhoedd<br>• Cyhoeddi canlyniad cychwynnol pob cyflwyniad Safle Ymgeisiol. | • Cynnal Asesiad SA/SEA o effeithiau polisïau a chynigion manwl y Cynllun Adneuo.<br>• Adneuo adroddiad SA yn ffurfiol<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus ar yr SA drafft<br>• Cynnwys adroddiad SA/SEA gyda'r Cynllun Adneuo<br>• Gofyn i gynrychiolwyr gyflwyno SA / SEA ar gyfer Safleoedd Gwahanol | • Angen HRA o'r Cynllun Adneuo.<br>• Cynnwys yr HRA yn y cynigion adneuo i'w cyhoeddi<br>• HRA cynigion ar gyfer Safleoedd Gwahanol | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Yr holl gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd yn Gyffredinol<br>• Pobl Ifanc<br>• Sipsiwn a Theithwyr | • Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br>• Gwefan CSP.<br>• Cyfryngau cymdeithasol CSP<br>• Ymgyngoriadau ysgrifenedig – llythyr ac e-bost<br>• Copïau o'r Cynllun ar gael yn Neuadd y Sir, canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid a llyfrgelloedd<br>• Gweithdai mewn ardaloedd, fydd yn agored i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol<br>• Seminar Ieuenctid<br>• Seminar Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Seminar Aelodau<br>• Cyfarfodydd gyda grwpiau/diddordebau penodol |

[16] Rheoliadau CDLl 17 i 19, 2005 / 2015

| **2. CAMAU DANGOSOL** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ar gynigion Adneuo y CDLl – coladu a darparu adborth ar y sylwadau** | • Paratoi ymateb ffurfiol CSP i sylwadau Adneuo a chyhoeddi'r rhain.<br>• Trafod gwrthwynebiadau strategol a/neu sylweddol gydag ymatebwyr a diweddaru'r Adroddiad Ymgynghori | | | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Yr holl gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd yn Gyffredinol | • Seminar Aelodau<br>• Seminar Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Ymgyngoriadau ysgrifenedig<br>• Cyfarfodydd<br>• Gwefan CSP a'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Rhannu gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a'r e-bost |
| **Cyflwyno[17] – paratoi argymhellion ac adrodd am yr holl sylwadau a dderbyniwyd i'w cyflwyno i'r archwiliad** | • Cwblhau adborth a sylwadau yn ffurf Adroddiad Ymgynghori wedi ei diweddaru<br>• Cyflwyno'r Cynllun Adneuo, yr Adroddiad SA (yn cynnwys SEA), HRA, Cynllun Cynnwys y Gymuned, Adroddiad Ymgynghori, sylwadau a dogfennau ategol (yn cynnwys y Sylfaen o Dystiolaeth) i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Arolygiaeth Gynllunio | | • Adroddiad HRA ailadroddol wedi ei gyflwyno | • Rhanddeiliaid Allweddol<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Aelodau<br>• Yr holl gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>• Y Cyhoedd yn gyffredinol. | • Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br>• Gwefan CSP a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Ymgyngoriadau ysgrifenedig<br>• Copïau o ddogfennau mewn lleoliadau allweddol (Neuadd y Sir, Hwlffordd, sêl lleoliad Adneuo'r Cynllun, Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor a llyfrgelloedd lleol) |

[17] Adran 64 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLl 22 -23 2005 / 2015